**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Mercher 20 Mawrth 2013 am 9.30am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr D Owens (Cadeirydd), I W Armstrong, J R Bartley (arsyllwr), B Blakeley, J A Butterfield, W L Cowie, J.A. Davies ,J.M. Davies. M Ll. Davies (is-gadeirydd), R J Davies, S.A. Davies, R L Feeley, C. L. Guy-Davies , H Hilditch-Roberts, C. Hughes, T.R. Hughes, E.A. Jones , P M Jones, G.M. Kensler (aelod lleol), M McCarroll, W M Mullen-James, R M Murray, T M Parry, A Roberts, , B.A. Smith, (aelod lleol) W.N. Tasker , J Thompson-Hill, J S Welch, C H Williams a H O Williams

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Cynllunio (Graham Boase); Rheolwr Rheoli Datblygu (Paul Mead); Prif Swyddog Cynllunio (Ian Weaver); Prif Gyfreithiwr – (Cynllunio a Phriffyrdd) (Susan Cordiner); Mike Parker (Swyddog Priffyrdd); Arweinydd Tîm (Cefnogi) (Gwen Butler); Swyddog Gwasanaethau Cwsmer (Judith Williams); a Chyfieithydd (Catrin Gilkes).
Mynychodd y Rheolwr Polisi Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Angela Loftus) a Swyddog Cynllunio, Cynllun Datblygu Lleol (Catrin Roberts), ran o'r cyfarfod.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr P W Owen, D Simmons, a C L Williams

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cynghorydd E.A. Jones gysylltiad personol yng nghais 40/2011/0181/PF
Datganodd y Cynghorydd T.M. Parry gysylltiad heb fod yn un ariannol yng nghais 22/2012/1363/PF
Datganodd y Cynghorwyr C Williams gysylltiad heb fod yn un ariannol yng nghais 01/2013/0080/PF
Datganodd y Cynghorwyr W Mullen James ac I Armstrong gysylltiad heb fod yn un ariannol yng nghais 45/2013/0024/PF

**3 EITEMAU BRYS: Dim**

**4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 20 CHWEFROR 2013.**
Cytunwyd ar y rhain fel cofnod cywir yn amodol ar newid Tudalen 23, dylai "Cyngor Dinas Llanelwy" ddweud "Cyngor Tref Rhuddlan".

**5 CEISIADAU AM GANIATÂD DATBLYGU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd eisoes) yn rhifo'r ceisiadau a gyflwynwyd ac a oedd angen cael eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) Cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel yn yr adroddiad a gyflwynwyd, a rhoi neu wrthod caniatâd cynllunio, yn ôl yr achos, fel y bo'n briodol, o dan Orchymyn Cynllunio Tref a Gwlad (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysu Cynllunio Tref a Gwlad 1991 a/neu Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r cynigion yn y ceisiadau canlynol yn amodol ar yr amodau a rifwyd yn yr atodlen a gyflwynwyd:-*

**Rhif Cais:** 01/2013/0080/PF

**Lleoliad:** **52 a 54 Stryd y Dyffryn, Dinbych**

**Disgrifiad:** Dymchwel swyddfeydd presennol ac adeiladu adeilad swyddfa newydd, adleoli mynedfa gerbydau a gwaith cysylltiedig

Datganodd y Cynghorydd Cefyn Williams gysylltiad â'r cais canlynol a gadawodd y Siambr tra cafodd ei ystyried. (gweler hefyd y nodyn isod)

Dosbarthwyd adroddiad o'r ymweliad safle a gynhaliwyd am 3pm 18 Mawrth 2013

**Siaradwyr Cyhoeddus:**
**Yn Erbyn**
HELENA MOORE (CYMYDOG)
Cyfeiriodd Ms Moore at y cais blaenorol a wrthodwyd ond roedd yn teimlo bod y cais diwygiedig yn dod â phroblemau ychwanegol o ran mynediad at olau ar gyfer ei hun a'i chymydog. Dywedodd Ms Moore bod yr adeilad bwriedig yn uwch oherwydd y to crib a byddai'n rhwystro golau'r haul o gegin ei chymydog a lleihau golau'r haul i'w gardd hi (Ms Moore). Byddai'n rhaid dibynnu ar olau artiffisial. Roedd hi'n teimlo nad oedd y dyluniad yn cyd-fynd â'r Ardal Gadwraeth gan nad oedd yn adeilad a addaswyd ond yn floc swyddfa newydd.

**O Blaid**:
ALWYN ROWLANDS (ASIANT)
Dangosodd Mr Rowlands ddarluniau pwyllgor a samplau o ddeunyddiau ac eglurodd eu bod wedi ystyried symud yr adeilad ymhellach i mewn i'r safle ond bod y cais yn cadw'r fynedfa mae'r adran Priffyrdd yn ffafrio. Byddai symud yr adeilad hefyd yn golygu symud y prif gebl trydan a gan fod rhan o'r safle ar greigwely, ni fyddai'r sylfeini yn y pwynt hwnnw mor ddwfn. Byddai hyn yn arwain at i'r adeilad fod yn uwch. Cynigir bod y lle parcio yn y cefn, byddai symud yr adeilad yn arwain at orfod parcio tu blaen, oddi ar Stryd y Dyffryn a fyddai'n effeithio ar yr Ardal Cadwraeth a'r strydlun.

Soniodd y Cynghorydd M. Lloyd Davies am yr ymweliad safle. Cyfeiriodd at effaith bosibl yr adeilad newydd ar yr eiddo cyfagos a gofynnodd am eglurhad ar y dimensiynau ar yr ochr ddwyreiniol.

Dywedodd y Swyddog Cynllunio, Ian Weaver byddai crib to'r adeilad newydd yn 12.5 m o lefel y llawr ar yr ochr hon, sef 2.5 m yn uwch na'r cynllun a wrthodwyd yn flaenorol a 5.5 m yn uwch na'r adeilad presennol.

Mynegodd y Cynghorydd M. Lloyd Davies ddiddordeb ym marn yr Asiant y gallai fod yn bosibl symud y cebl trydan, ac roedd yn teimlo y gellid gwneud mwy i fynd i'r afael â phryderon y cymdogion. Teimlai y gellid gostwng uchder yr adeilad a gosod ffenestri dormer yn y to.

Gofynnodd y Cynghorydd G Kensler os oedd hwn yn gais newydd neu'n ddiwygiad a chwestiynodd yr ymateb i'r ymgynghoriad gan Gyngor Tref Dinbych, gan nad oedd gwrthwynebiad ar ddechrau'r adroddiad, ond yn ddiweddarach nodwyd eu bod yn gwrthwynebu.

Dywedodd Ian Weaver mai camgymeriad oedd hyn a chadarnhaodd nad oedd gan y Cyngor Tref wrthwynebiad. Dywedodd ei fod yn gais newydd, i'w benderfynu yn ôl ei rinweddau ei hun.

Cynigodd y Cynghorydd M Parry roi caniatâd cynllunio. Cyfeiriodd at gyfarfodydd gyda'r Asiantau a amlygodd broblemau gyda'r prif gebl trydan a'r creigwely. Roedd y Cynghorydd Parry yn teimlo bod y dyluniad newydd, gyda'r paneli solar yn y to, yn dderbyniol a byddai'n sicrhau bod gwaith yn parhau yn Ninbych.

**Ar gael ei roi i'r Bleidlais**
**15 Pleidlais i ROI CANIATÂD**
**8 Pleidlais i WRTHOD**
**1 yn gwrthod pleidleisio**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD CYNLLUNIO**

NODYN
Yn ystod y cyfarfod pwyllgor, gofynnodd y Cynghorydd H Hilditch Roberts am nodi nad oedd wedi pleidleisio ar y cais hwn gan nad oedd yn bresennol ar ddechrau'r drafodaeth.
Roedd y Cynghorydd Colin Hughes hefyd yn dymuno gwneud nodyn ei fod wedi gofyn am gyngor y Swyddog Cyfreithiol a'i fod wedi cael gwybod nad oedd ei gysylltiad (a gafodd ei ddatgan mewn cyfarfod blaenorol) yn rhagfarnllyd ac o'r herwydd roedd wedi pleidleisio ar yr eitem hon.

**Rhif Cais:** 02/2013/0043/PF

**Lleoliad:** **Tir rhwng 5 a 6 Tan Y Castell Dog Lane Rhuthun**

**Disgrifiad:** Adeiladu annedd 2 ystafell wely a chreu mynedfa gerbydau newydd i Tan y Castell

Doedd dim trafodaeth ar yr eitem hon

**Cynigodd y Cynghorydd M. Lloyd Davies y dylid rhoi caniatâd cynllunio. Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd S Davies.**

**Ar gael ei roi i'r Bleidlais**

**22 Pleidlais i ROI CANIATÂD**
**0 Pleidlais i WRTHOD**
**1 yn gwrthod pleidleisio**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD CYNLLUNIO**

**Rhif Cais:** 02/2013/0085/PF

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | **Tir a ddefnyddir ar gyfer bloc garej Maes Hafod Rhuthun** |
| Disgrifiad: | Adeiladu teras o 3 annedd a chreu mynedfeydd cerbydau newydd (arwynebedd safle 0.05ha) |

Datganodd y Cynghorydd Cefyn Williams gysylltiad â'r cais canlynol a gadawodd y Siambr tra cafodd ei ystyried.

Doedd dim trafodaeth ar yr eitem hon

**Cynigodd y Cynghorydd M. Lloyd Davies y dylid rhoi caniatâd cynllunio. Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd S Davies.**

**Ar gael ei roi i'r Bleidlais**

**22 Pleidlais i ROI CANIATÂD**
**1 Pleidlais i WRTHOD**
**0 yn gwrthod pleidleisio**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD CYNLLUNIO**

**Rhif Cais:** 02/2013/0099/PF

**Lleoliad:** **Ellie Louise Stryd y Farchnad Rhuthun**

**Disgrifiad:** Newid defnydd o uned fanwerthu (Dosbarth A1) i gaffi (Dosbarth A3)

Cyfeiriodd y Cynghorydd H Hilditch Roberts at lythyr o wrthwynebiad oddi wrth J. Thomas, a anfonwyd at y Cadeirydd. Eglurodd y Cynghorydd Hilditch Roberts hanes y safle, a oedd yn wag ar hyn o bryd. Siop ddillad oedd hi ddiwethaf, ac roedd gyferbyn â'r Wetherspoon's. Dywedodd bod gan Ruthun llawer o gaffis eraill ac yn teimlo ei bod yn bwysig cadw'r eiddo'n siop. Roedd wedi gwneud ymholiadau gyda'r Gwerthwyr a oedd wedi cynnig yr eiddo ar werth fel caffi yn amodol ar ganiatâd cynllunio. (Pan ofynnwyd a ddylai ddatgan cysylltiad, dywedodd y Cynghorydd Hilditch Roberts fod yr ymholiad ar gyfer dibenion ymchwil ac nad oedd ganddo ddiddordeb yn yr eiddo ar gyfer ei hun).
Cytunodd y Cynghorydd Bobby Feeley bod yna ddigon o gaffis yn Rhuthun, a theimlodd ei bod yn bwysig cadw'r dref yn fyw gyda chymysgedd o wahanol siopau.

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriodd y Cynghorwyr at geisiadau tebyg am "Next" yn y Rhyl, a wrthodwyd yn y pwyllgor diwethaf. Ailadroddwyd y farn bod angen mwy o siopau yng nghanol trefi.

Dwedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu, Paul Mead, nad oedd y safle mewn prif stryd siopa a bod polisi manwerthu cyffredinol (RET 6) yn edrych yn ffafriol ar ddefnydd cymysg yng nghanol trefi.
Gofynnodd y Cynghorydd Cefyn Williams am bosibilrwydd amddiffyn apêl yn llwyddiannus. Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley o'r farn ei bod yn bwysig profi'r polisi ac y byddai'n fodlon amddiffyn gwrthod y cais mewn apêl.

Cynigodd y Cynghorydd H Hilditch Roberts wrthod caniatâd cynllunio
Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd RL Feeley.
Ar gael ei roi i'r Bleidlais:
7 Pleidlais i ROI CANIATÂD
15 Pleidlais i WRTHOD
1 yn gwrthod pleidleisio

**FELLY GWRTHODWYD CANIATÂD CYNLLUNIO**

GWRTHODWYD yn groes i argymhelliad y Swyddogion am y rheswm canlynol:

> Barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw y byddai'r cais i newid defnydd o siop A1 i ddefnydd A3 yn y lleoliad hwn yn cael effaith annerbyniol ar y cynnig siopau a chymeriad canol tref Rhuthun a'r Dalgylch, gan gyfrannu at or-grynhoad o ddefnyddiau A3 na fyddai'n ymestyn na gwella hyfywdra a bywiogrwydd y dref, yn groes i fwriadau Polisi RET 6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.

.......................................................................................................................

Gwnaethpwyd y penderfyniad, yn GROES i argymhelliad y Swyddogion am y rheswm canlynol: Credwyd bod y cais yn debygol o gael effaith annerbyniol ar Ganol Tref Rhuthun.

**Rhif Cais:** 18/2013/0023/PF

**Lleoliad:** **Bryn Egwallt Llandyrnog Dinbych**

**Disgrifiad:** Dymchwel hen sgubor steil Iseldiraidd a chodi anecs to crib unllawr ar wahân yn atodol i'r brif annedd

Cynigodd y Cynghorydd M Parry OHIRIO'R cais hwn er mwyn sefydlu a oedd darn triongl o dir (tir amaethyddol, a werthwyd i'r ymgeisydd gan y Cyngor Sir) wedi ei gynnwys yn y cwrtil ac os felly a fyddai angen newid defnydd. Nid oedd yn fodlon datrys y mater hwn drwy osod amod.
Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd H Hilditch Roberts

**Ar gael ei roi i'r Bleidlais**

**23 pleidlais i OHIRIO**
**3 pleidlais yn erbyn gohirio**
**0 yn gwrthod pleidleisio**

**Felly cafodd y cais hwn ei OHIRIO**

**Rhif Cais:** 22/2012/1363/PC

**Lleoliad:** **Tir gerllaw Llidiart Fawr, Llangynhafal, Rhuthun**

**Disgrifiad:** Cadw mynedfa wartheg/ cae newydd a giât ddur 7-bar

Datganodd y Cynghorydd .M Parry gysylltiad â'r cais canlynol a gadawodd y Siambr tra cafodd ei ystyried.

Rhoddwyd sylwadau ychwanegol oddi wrth:

Mr. I. McGregor

Dosbarthwyd adroddiad o ymweliad safle a gynhaliwyd am 2.00 p.m. ar 5 Mawrth 2013.

**Siaradwyr Cyhoeddus:**

Siaradodd Mr Ian McGregor yn erbyn y datblygiad a nododd oedd yn risg iechyd a diogelwch i'w deulu. Nid oedd hi bellach yn bosibl defnyddio'r ardd fel y byddai'r teulu'n dymuno oherwydd yr arogl o'r gwartheg yn hel wrth y giât. Byddai'r gwrych bwriedig yn rhwystro gweld y gwartheg, ond ni fyddai'n lleihau'r elifiant. Roedd yn teimlo bod yr adran Briffyrdd yn anghywir i gymeradwyo'r adwy gan na ellid gweld y cerbydau a fyddai'n dod ohoni. Anogodd y pwyllgor i ddod â phwyll yn ôl i'w bywydau.

Siaradodd Mr Charles Whittingham (yr ymgeisydd) o blaid y cais. Esboniodd Mr Whittingham mai'r rheswm dros y giât oedd caniatáu'r gwartheg i fynd yn syth ar draws y ffordd i'w godro. Pe bai raid iddynt ddefnyddio giât arall ymhellach i ffwrdd, byddai'n rhaid iddynt gerdded ar hyd y ffordd. Ers iddynt fod yn defnyddio'r adwy newydd yma, mae'r gwrychoedd yn ffynnu, mae llai o elifiant ar y ffordd a llai o darfu ar draffig. Dywedodd Mr Whittingham ei fod wedi ennill gwobrau am ecoleg, bod ganddo 350 o wartheg a oedd yn derbyn gofal da ac nad oedd erioed o'r blaen wedi cael anghydfod gyda chymydog.

Soniodd y Cynghorydd M. Ll. Davies am yr Ymweliad Safle. Roedd y panel arolygu wedi cerdded ar hyd y ffordd, a oedd yn brysur ac wedi sylwi ar y man y deallir bod y gwartheg yn hel yn agos i dŷ Mr McGregor. Gwerthfawrogwyd y gallai symud gwartheg ar y ffordd gythruddo modurwyr. Roedd y Cynghorydd Lloyd Davies yn meddwl ei bod yn annheg ar y gwartheg disgwyl iddynt gerdded pellteroedd hir ar y ffordd, ond roedd yn cydymdeimlo gyda'r cymydog. Roedd y Cynghorydd Davies yn teimlo y gallai codi ffens neu wrych i gadw'r gwartheg i draw oddi wrth y tŷ ddifetha'r olygfa, ond holodd a oedd hawl i olygfa, ac y byddai'r mwd yn dal i fod yno.

Roedd y Cynghorydd B. Feeley yn teimlo bod y giât yn annerbyniol o agos i'r tŷ. Pwysleisiodd y Cynghorydd Feeley nad oedd y teulu McGregor yn fewnfudwyr diweddar a'u bod wedi byw yn Llidiart Fawr am sawl blwyddyn.

Dywedodd Ian Weaver (Prif Swyddog Cynllunio) nad oedd yr hawl i olygfa yn ystyriaeth gynllunio a allai gario pwysau sylweddol.

Teimlodd y Cynghorydd H. Hilditch Roberts hyd yn oed os nad oedd yr adwy yno, byddai'r gwartheg dal yn y cae hwnnw a byddai'r tail yn dal i gael ei chwalu. Gofynnodd am sylwadau oddi wrth y Swyddog Priffyrdd.

Dywedodd Mike Parker (Priffyrdd) bod yr adwy hon ar lôn fach ac er ei bod yn cael ei defnyddio'n aml, doedd dim hanes o ddamweiniau ar hyd y ffordd. Does gan yr adran Briffyrdd ddim gwrthwynebiad gan y gallai cerdded y gwartheg ymhellach gynyddu problemau traffig.

Siaradodd y Cynghorydd H Williams o blaid y cais a theimlodd bod y mater wedi cael ei ymchwilio’n fanwl. Dywedodd ei bod yn ffordd brysur a bod y gwartheg yn croesi ar adegau prysur. Awgrymodd amod yn gofyn am wrych neu ffens ar gyfer dibenion diogelwch gyda chyfyngiad ar ei uchder.

Cynigodd y Cynghorydd H. Williams **ROI CANIATÂD CYNLLUNIO.**
Yn ddibynnol ar yr amod ychwanegol
Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Ann Davies

Ar gael ei roi i’r Bleidlais:

**21 Pleidlais i ROI CANIATÂD**
**4 Pleidlais i WRTHOD**

**Doedd neb yn gwrthod pleidleisio**

**FELLY RHODDWYD CANIATÂD CYNLLUNIO**

***Yn ddibynnol ar yr amod ychwanegol ganlynol.*** ........

2. Bod manylion cynllun plannu gwrychoedd a darparu ffens cryf ar hyd ffin Llidiart Fawr yn cael ei gyflwyno o fewn o un mis o ddyddiad rhoi’r caniatâd hwn, i’r Awdurdod Cynllunio Lleol ei ystyried, a bydd yn cynnwys manylion rhywogaethau a dwysedd yr hyn gaiff ei blannu, manylion y ffens a’r mesurau amddiffyn yr hyn a blannir rhag difrod, maint ffisegol y cyfryw wrychoedd ac ar ba uchder y caiff y gwrych ei gadw; a bydd y manylion a gymeradwyir yn cael eu gweithredu erbyn tymor plannu hydref 2013 fan bellaf. Bydd planhigion newydd o faint a rhywogaeth debyg yn cael eu pannu yn lle unrhyw blanhigyn sy'n marw o fewn cyfnod o 5 mlynedd, sy’n cael ei dorri neu ei ddifrodi neu'u heintio'n ddifrifol, yn y tymor plannu nesaf.

Rheswm: Er lles amwynder gweledol.

| | |
|---|---|
| **Rhif Cais:** | 40/2011/0181/PF |

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | **Little Pengwern Ffordd Nant Y Faenol Bodelwyddan Y Rhyl** |
| **Disgrifiad:** | Cadw bloc stablau a defnyddio tir fel lle hyfforddi ceffylau a chodi 6 colofn golau 5m o uchder |

Datganodd y Cynghorydd Alice Jones gysylltiad â’r cais canlynol a gadawodd y Siambr tra cafodd ei ystyried.

Rhoddwyd sylwadau ychwanegol oddi wrth:

Yr Uwch Beiriannydd Draenio

A ac R Jones, Llys Menyn, Bodelwyddan

**Siaradwyr Cyhoeddus:**

Siaradodd Mr. Neil Williams (yr ymgeisydd) o blaid y cais.

Eglurodd Mr. Williams fod pawb o’r teulu yn marchogaeth a bod ganddo ferlod cystadlu sydd angen eu hymarfer yn rheolaidd. Prynwyd yr eiddo yn 2005 ac adeiladwyd y stablau yn 2007 gydag wyneb marchogaeth clai. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio’r wyneb hwn os yw’n galed neu’n wlyb. Mae'r wyneb newydd yn fwy addas ac wedi cael ei gymeradwyo gan Beirianwyr Draenio’r Sir. Mae'r goleuadau wedi cael eu cymeradwyo gan Swyddog Llygredd y Sir fel bod yn addas. Dim ond yn gynnar gyda’r nosau yn y gaeaf bydd y goleuadau’n cael eu defnyddio, pan fydd y ceffylau’n cael eu hymarfer ar ôl ysgol.

Eglurodd Paul Mead nad yw’r tir hwn yn rhan o Fferm Pengwern a dwedodd Susan Cordiner (Swyddog Cyfreithiol) yr anfonwyd yr e-bost oddi wrth Alice a Richard Jones yn breifat.

Amlygodd y Cynghorydd A. Roberts bod yr ardal yn destun llifogydd.

Nododd Paul Mead y bu ymdrechion i asesu’r problemau draenio, ond nid oedd yn credu bod y man ymarfer ceffylau wedi gwaethygu’r sefyllfa.

Cynigodd y Cynghorydd S. Davies ROI CANIATAD CYNLLUNIO.

Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Merfyn Parry
Ar gael ei roi i’r Bleidlais:

24 Pleidlais i ROI CANIATAD
1 Pleidlais i WRTHOD
Doedd neb yn gwrthod pleidleisio

**FELLY RHODDWYD CANIATAD CYNLLUNIO**

(Roedd y Cynghorydd M. Ll. Davies yn siomedig bod hwn yn gais ôl-weithredol arall. Roedd yn teimlo dylid cosbi ymgeiswyr mewn rhyw ffordd am beidio gofyn am ganiatâd cyn datblygu).

**Rhif Cais:** 45/2012/1634/PC

**Lleoliad:** **127/129 Stryd Fawr Y Rhyl**

**Disgrifiad:** Cadw blaen siop newydd

Cafwyd llythyrau ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth:

Rheolwr Canol Tref y Rhyl

Rheolwr Rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen

(a oedd yn cefnogi'r awgrym o amod i newid y blaen siop yn ddiweddarach.)

Rodd y Cynghorydd J. Butterfield o'r farn y dylid caniatáu'r blaen siop i aros. Roedd yn teimlo gellid ei newid am ffrâm bren maes o law.

Dwedodd Paul Mead fod y pren gwreiddiol wedi bod yn dirywio ac y gosodwyd UPVC yn ei le. Roedd y swyddogion yn cytuno gyda'u cydweithwyr yn yr adain Gadwraeth a oedd yn erbyn y datblygiad hwn. Bu cynnig o grant MTT i gynorthwyo'r ymgeisydd ond gwrthodwyd hyn.

Nid oedd y Cynghorydd M. Lloyd Davies yn cydymdeimlo â'r ymgeisydd gan y bu grant ar gael. Roedd yn teimlo pe bai'r cais hwn yn cael ei wrthod, gellid dal bod yn bosibl gwerthu'r eiddo cyn gellid edrych ar yr holl lwybrau apêl. Teimlodd ei bod yn bwysig delio â hyn o fewn y gyfraith.

Awgrymodd y Cynghorydd J. Butterfield y dylid cael gwared ar y llenni a baentiwyd yn y ffenestri yn y llofft.

Cynigodd y Cynghorydd M. Ll. Davies WRTHOD. Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Alice Jones.

Cynigodd y Cynghorydd J. Butterfield dylid RHOI CANIATAD CYNLLUNIO gydag amod yn cyfyngu'r caniatâd i gyfnod dros dro.

Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Ian Armstrong.

Gofynnwyd i'r Aelodau bleidleisio o blaid neu yn erbyn y cais i ROI CANIATAD, gyda'r amod a awgrymwyd.
**Ar gael ei roi i'r Bleidlais:**

12 Pleidlais i ROI CANIATAD
12 Pleidlais i WRTHOD
0 yn gwrthod pleidleisio
Ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd, cafodd y cais hwn ei drechu.

Yna gofynnwyd i'r Aelodau bleidleisio ar y cynnig i WRTHOD

8 Pleidlais i ROI CANIATAD
16 Pleidlais i WRTHOD
Doedd neb yn gwrthod pleidleisio

**FELLY GWRTHODWYD CANIATAD CYNLLUNIO**

**Rhif Cais:** ENF/2013/00007

**Lleoliad:** **127/129 Stryd Fawr Y Rhyl**

**Disgrifiad:** Datblygiad heb awdurdod, gosod blaen siop newydd

Roedd y Cynghorydd J. Butterfield yn teimlo ei bod yn ofer i dynnu’r blaen siop newydd gan y byddai’n edrych yn waeth wedi ei gau i fyny.

Roedd y Cynghorydd Stuart Davies o’r farn ni ddylid bod eithriadau ac y dylai pawb gydymffurfio â’r rheolau cynllunio.

Nid oedd y Cynghorydd Alice Jones yn teimlo ei fod yn ffiaidd, ond ni ddylid bod unrhyw eithriadau.

Awgrymodd y Cynghorydd J. Butterfield dylid ymestyn y cyfnod cydymffurfio i ganiatáu amser i’r perchennog werthu ac amddiffyn y Stryd Fawr rhag cael ei dinistrio.

**Trafodaeth Gyffredinol:**

Holodd y Cynghorydd M. Ll. Davies tybed a oedd 2 yn ormodol. Roedd y swyddogion yn cydnabod ei fod yn gyfnod hir ond nid oeddent yn credu ei fod yn afresymol.

Gofynnodd y Cynghorydd Alice Jones a fyddai deiliaid tai yn cael estyniad mor hir o amser cydymffurfio. Eglurodd y Swyddogion y dylid ystyried pob achos ar ei rinwedd ei hun.

Cynigodd y Cynghorydd J. Butterfield dylid awdurdodi camau Gorfodaeth gyda chyfnod cydymffurfio o 2 flynedd.

Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd B. Blakeley.

Ar gael ei roi i’r Bleidlais:

Cytunodd 16 i awdurdodi Camau Gorfodaeth gyda chyfnod cydymffurfio o 2 flynedd.
Pleidleisiodd 8 i beidio cymryd Camau Gorfodaeth.

PENDERFYNWYD felly awdurdodi:

Cyflwyno Rhybudd Gorfodaeth i sicrhau y ceir gwared ar y blaen siop heb awdurdod a gosod blaen siop newydd â dyluniad a deunydd sy'n parchu’r safle a'r amgylchoedd ac yn cynnal neu wella’r Ardal Gadwraeth, yn amodol ar gyfnod cydymffurfio o ddwy flynedd.

Cychwyn achos erlyn, neu unrhyw gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y person, neu'r personau, y cyflwynir unrhyw Rybudd Gorfodaeth, neu Rybudd arall o'r fath iddynt, petaent yn methu â chydymffurfio â'u gofynion.

**Rhif Cais:** 45/2013/0024/PF

**Lleoliad:** **Llyn Marine Ffordd Wellington Y Rhyl**

**Disgrifiad:** Gosod system Cableski llinell sengl gyda chyflenwad pŵer cysylltiedig a chaban rheoli

Datganodd y Cynghorwyr Win Mullen James ac Ian Armstrong gysylltiad â'r cais hwn.

Gofynnodd y Cynghorydd W. Mullen James am ohirio'r eitem hon er mwyn gallu bwydo canlyniadau cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2013 rhwng gwahanol gyfranogion a Chynghorau Sir a Thref yn ôl i'r Pwyllgor cyn dod i benderfyniad. Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Bill Tasker.

Holodd Paul Mead beth oedd budd gohirio gan na fyddai'r mater o reoli'r llyn yn berthnasol i rinweddau Cynllunio'r cais.

**PLEIDLAIS:**
Ar gael ei roi i'r Bleidlais

15 pleidlais i OHIRIO
11 pleidlais i OHIRIO

Felly, penderfynwyd GOHIRIO'R eitem hon.

**Rhif Cais:** 45/2013/0024/PF

**Lleoliad:** **Bar Blu 1 Stryd Cinmel Y Rhyl**

**Disgrifiad:** Ffurfio ardal â chysgod ar y to ac addasiadau i'r drysau mynediad ar y llawr gwaelod yn wynebu'r Stryd Fawr

Rhoddwyd sylwadau ychwanegol oddi wrth Swyddog Cadwraeth y Cyngor Sir.

Doedd dim trafodaeth ar yr eitem hon.

Cynigodd y Cynghorydd J. Butterfield ROI CANIATAD CYNLLUNIO

Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Pat Jones.

**PLEIDLAIS:**

Ar gael ei roi i'r Bleidlais:

23 Pleidlais i ROI CANIATAD
0 Pleidlais i WRTHOD
0 yn gwrthod pleidleisio

**FELLY RHODDWYD CANIATAD CYNLLUNIO**

**Rhif Cais:** 45/2013/0052PO

**Lleoliad:** **Tir yn (Rhan o Ardd) 2 Elm Grove Y Rhyl**

**Disgrifiad:** Datblygu 0.03ha o dir trwy adeiladu annedd (cais amlinellol yn cynnwys mynedfa a gosodiad)

Rhoddwyd sylwadau ychwanegol oddi wrth Mr M.A. Evans

Doedd dim trafodaeth ar yr eitem hon.

Cynigodd y Cynghorydd J. Butterfield ROI CANIATAD CYNLLUNIO

**PLEIDLAIS:**

Ar gael ei roi i'r Bleidlais:

23 Pleidlais i ROI CANIATAD
0 Pleidlais i WRTHOD
0 yn gwrthod pleidleisio

**FELLY RHODDWYD CANIATAD CYNLLUNIO**

**Eitem: 12**

**Rhif Cais:** 45/2013/0065/PF

**Lleoliad:** **The Sussex 20-26 Stryd Sussex Y Rhyl**

**Disgrifiad:** Newid defnydd tir o briffordd i ffurfio estyniad i eiddo trwy ychwanegu system rwystrau ffabrig symudol o flaen yr adeilad i ddarparu ardal caffi palmant

Eglurodd y Cynghorydd Win Mullen James bod y Cyngor Tref wedi gwrthwynebu gan y teimlwyd efallai byddai traffig yn cael ei rwystro gan y datblygiad ond roedd yn deall byddai'r ardal dan sylw tu ôl i'r bolardiau presennol.

Gofynnodd y Cynghorydd M. Parry am y niwsans cymdeithasol pe byddai yfed ar y stryd.

Dwedodd Paul Mead byddai angen newid y drwydded er mwyn i hyn ddigwydd. Byddai'r Adran Drwyddedu'n cael eu hysbysu.

Nododd y Cynghorydd J. Butterfield na fu unrhyw gwynion yn ystod yr 8-9 mlynedd y bu'r eiddo ar agor.

Cynigodd y Cynghorydd J. Butterfield ROI CANIATAD CYNLLUNIO.

Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Pat Jones.

**PLEIDLAIS:**

23 Pleidlais i ROI CANIATAD
0 Pleidlais i WRTHOD
0 yn gwrthod pleidleisio

**FELLY RHODDWYD CANIATAD CYNLLUNIO**

**Rhif Cais:** 47/2012/1130/AC

**Lleoliad:** **Gwesty'r White House Ffordd Treffynnon Rhuallt Llanelwy**

**Disgrifiad:** Manylion tirweddu a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 6 caniatad cynllunio cod rhif 47/2011/0527

Rhoddwyd sylwadau ychwanegol oddi wrth CPRW ac I a J Hansford

Dosbarthwyd adroddiad o ymweliad safle, a gynhaliwyd ddydd Mercher 6 Chwefror 2013.

Rhoddodd y Cynghorydd M. Ll. Davies adroddiad o'r ymweliad safle. Roedd yn teimlo bod sgriniad y datblygiad yn dderbyniol. Rhoddodd y Cynghorydd B. Smith sylwadau ar y cais hwn a'r cais canlynol. Roedd hi'n siomedig na chadwyd y tirweddu, gan y byddai'n cymryd amser i'r planhigion newydd sefydlu. Roedd yn teimlo y gellid bod wedi defnyddio sbesimenau mwy.

Eglurodd Ian Weaver (Prif Swyddog Cynllunio) nes y bydd caniatâd cynllunio yn cael ei weithredu, nad yw amodau yn dod yn effeithiol, ond ei fod yn fater cyfreithiol a ellid gwneud gwaith i dorri coed cyn i'r gwaith ddechrau ar ddatblygiad a ganiateir. Dywedodd bod cynllun tirweddu helaeth yn cael ei wneud, roedd y coed newydd, yn 3 - 4.5m o uchder, yn eithaf mawr ar gyfer cychwyn plannu ac roedd perygl o sbesimenau mwy yn methu. Dylid nodi na fyddai'r tirweddu'n aeddfedu am 5 - 10 mlynedd ac nad oedd yn rhesymol disgwyl cael sgriniad ar unwaith.

Cynigodd y Cynghorydd M. Ll. Davies GYMERADWYO'R cynlluniau gydag amod i gadw'r gwrychoedd ar uchder o 2m o leiaf er mwyn cynorthwyo sgrinio.

Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd S. Davies.

Ar gael ei roi i'r Bleidlais:

22 Pleidlais i ROI CANIATAD
1 Pleidlais i WRTHOD
1 yn gwrthod pleidleisio

Penderfynwyd felly, CYMERADWYO manylion y tirweddu yn cael ei yn amodol ar gynnwys amod i sicrhau bod y gwrychoedd yn cael eu cynnal ar uchder priodol fel sgrin naturiol ar gyfer y datblygiad.

**Eitem: 14**

**Rhif Cais:** 47/2012/1137/AC

**Lleoliad:** **Gwesty'r White House Ffordd Treffynnon Rhuallt Llanelwy**

**Disgrifiad:** Manylion adeilad glanweithdra a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 15 caniatad cynllunio cod rhif 47/2011/0527

Rhoddwyd sylwadau ychwanegol oddi wrth:

CPRW a Mr E. George.

Dosbarthwyd adroddiad o ymweliad safle, a gynhaliwyd ddydd Mercher 6 Chwefror 2013.

**Siaradwyr Cyhoeddus:**

Siaradodd Mr. Emyr George (cymydog) yn erbyn y cais. Dywedodd Mr George fod y manylion gwreiddiol wedi bod yn amwys. Dangosodd y prif gynllun tirweddu adeilad glanweithdra heb feintiau, ac ychydig o fanylion ar wahân i nifer y ciwbiclau. Dangosodd y Datganiad Dylunio a Mynediad uned debyg i gaban coed, symudol. Teimlodd fod y cais yn rhy fawr.

Siaradodd Peter Lloyd (Asiant) o blaid y cais. Atgoffwyd y pwyllgor ganddo y rhoddwyd caniatâd yn 2011 i alluogi adnewyddu'r White House. Mae'r gwesty'n agor yn fuan ac roedd Mr Lloyd yn teimlo bod y pwyllgor wedi croesawu hyn. Mae'r cais yn fwy na ddangoswyd yn wreiddiol, ond byddai'r adeilad yn gwasanaethu'r safle cyfan, gan gynnwys y carafannau sefydlog ac mae'n ecogyfeillgar.

Cafodd yr aelodau eu hatgoffa gan y Cynghorydd M. Lloyd Davies o'r rheol sy'n atal Cynghorwyr rhag pleidleisio os nad ydynt wedi clywed y drafodaeth gyfan. Unwaith eto roedd yn siomedig y gofynnwyd iddynt gymeradwyo datblygiad ôl-weithredol. Fodd bynnag, roedd yn falch byddai Gwesty'r White House ar agor yn fuan.

Esboniodd y Cynghorydd B. Smith ei bod wedi gofyn am benderfyniad gan y pwyllgor er bod cymeradwyo amodau fel arfer yn cael ei ddirprwyo i swyddogion benderfynu arnynt. Roedd hi'n cofio'r drafodaeth yn y pwyllgor yn canolbwyntio ar fyddai'r datblygiad yn digwydd o gwbl, yn hytrach na'r manylion. Cydnabuwyd bod anghysondeb yn y cynlluniau. Roedd yn anffodus eu bod yn delio â fait accompli a byddai'n ddymunol pe bai'n bosibl gwrthod unrhyw beth ôl-weithredol. Fodd bynnag, drwy ddod ag ef gerbron y pwyllgor, byddai gan bawb gyfle i godi materion. Holodd y Cynghorydd Smith ai lliw gwyrdd khaki neu gwyrdd olewydd (fel yr awgrymwyd gan y Pwyllgor ANHE) oedd orau ac ychwanegodd bod yr adeilad ar hyn o bryd yn llwm iawn a byddai'n elwa o gael ei orffen. Gofynnodd am gynnwys isafswm uchder gwrychoedd.

Dwedodd y Swyddog Cyfreithiol, Susan Cordiner, gan fod yr adeilad o fewn ôl troed y cais gwreiddiol, roedd yn addas i'w benderfynu fel cymeradwyo amod heb orfod cyflwyno cais cynllunio newydd.

Dywedodd Ian Weaver y byddai'r adeilad bwriedig ychydig yn fwy ar 260 metr sgwâr ac mae'n siâp gwahanol. Fodd bynnag, byddai yn nwylo'r pwyllgor i benderfynu a oedd y manylion yn dderbyniol gan ei fod o fewn ôl troed y cais gwreiddiol. O ran lliw, awgrymwyd gwyrdd khaki ond roedd y Pwyllgor ANHE wedi gofyn am ddefnyddio gwyrdd olewydd sydd ychydig yn dywyllach. Fodd bynnag, unwaith byddai wedi'i sgrinio, ni fyddai'n rhy ymwthiol.

Cynigodd y Cynghorydd M. Parry gymeradwyo’r amod yn amodol ar isafswm uchder gwrychoedd.

Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd R. Davies

**Ar gael ei roi i’r Bleidlais:**

19 pleidlais i ROI CANIATAD
4 Pleidlais i WRTHOD
1 Wedi gwrthod pleidleisio

Penderfynwyd felly **CYMERADWYO’R** manylion tirweddu yn amodol ar gynnwys amod i sicrhau bod y gwrychoedd yn cael eu cynnal ar uchder priodol fel sgrin naturiol ar gyfer y datblygiad.

**EITEM 6**

**GOSOD 2 DYRBIN GWYNT MICRO-GYNHYRCHU 50Kw GYDA BLWCH RHEOLI A LLWYBR MYNEDIAD**

**SIRIOR, LLANDRILLO CORWEN**

**ADRODDIAD I GEISIO PENDERFYNIAD AM YR AMODAU CYNLLUNIO I'W GOSOD YNGHLWM WRTH GAIS CYNLLUNIO Rhif 07/2012/0539**

**Roedd yr adroddiad hwn gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** yn ceisio penderfyniad gan yr Aelodau am yr amodau cynllunio i'w gosod ynghlwm wrth y Dystysgrif Penderfyniad i gais cynllunio cyf: 07/2012/0539, a gafodd ganiatâd cynllunio yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor.

Cynigodd y Cynghorydd Cefyn Williams OHIRIO'R penderfyniad ar yr adroddiad hwn. Cafodd y cais hwn ei eilio gan y Cynghorydd Arwel Roberts

Ar gael ei roi i'r Bleidlais

**4 pleidlais i OHIRIO**
**19 pleidlais i BEIDIO GOHIRIO**

Penderfynwyd felly i barhau ag ystyried yr adroddiad hwn

Siaradodd Mr Andrew Jedwell (Siaradwr Cyhoeddus) yn gofyn am ystyried gohirio'r penderfyniad. Honiad Mr Jedwell oedd nad oedd digon o amser i ystyried yr holl amodau a theimlai hefyd bod angen ystyried tudalen lawn o sylwadau a newidiadau a gyflwynwyd yn hwyr y noson cynt. Roedd yn teimlo bod gohirio yn deg, gan fod yr ymgeisydd wedi gohirio'r cais ei hun yn y gorffennol. Roedd hyn mewn ardal sensitif iawn.

Eglurodd y swyddogion bod caniatâd wedi ei roi ar gyfer y tyrbinau. Awgrymwyd nad oedd y mater wedi cael ei ruthro gan fod yr adroddiad a'r papurau pwyllgor ynghyd â'r sylwadau hwyr wedi cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu yn y ffordd arferol i'r terfynau amser arferol.

Cynigodd y Cynghorydd M. Lloyd Davies gymeradwyo'r amodau yn amodol ar gynnwys yr amodau ychwanegol a awgrymwyd yn y daflen sylwadau a gyflwynwyd yn hwyr. Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd H.O. Williams

**Ar gael ei roi i'r Bleidlais**
**23 pleidlais i ROI CANIATAD**
**0 Pleidlais i WRTHOD**
**Doedd neb yn gwrthod pleidleisio**

Felly cymeradwywyd yr amodau a awgrymwyd yn adroddiad y swyddogion, yn amodol ar:

**A) yr amodau canlynol**:

19. AMOD CYN DECHRAU

Ni fydd unrhyw waith yn dechrau ar y safle nes bod Datganiad Methodoleg Adeiladu wedi'i gyflwyno'n ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo, a bydd y datblygiad yn cael ei weithredu'n llwyr yn unol â'r manylion cymeradwy hynny. Bydd y Datganiad yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â:

a) Adeiladwaith a draeniad o'r holl lwybrau mynediad mewnol, cyfleusterau parcio a throi, gan gynnwys mesurau i adfer y tir unwaith bydd wedi'i adeiladu.
b) Gosod ceblau ac ail-lenwi unrhyw ffosydd.
c) Storio offer a deunyddiau ar y safle yn ystod gwaith adeiladu.
d) Mesurau i warchod cyflenwadau dŵr preifat ac atal llygredd dŵr daear.
e) Rheoli stripio pridd er mwyn sicrhau nad yw bod lefelau uchel o silt yn rhedeg oddi ar

yr wyneb.

f) Draenio dŵr wyneb a dŵr budr.

g) Cofnodi cyflwr daearegol presennol yr ardal gloddio.

h) Cofnodi cyflwr presennol y safle.

Bydd y gwaith cloddio sy'n gysylltiedig ag adeiladu tyrbinau gwynt ac unrhyw ddatblygiad atodol, gan gynnwys y trac mynediad a gosod ceblau, yn cael ei wneud yn unol â'r darpariaethau canlynol:

a) Ni fydd unrhyw waith cloddio yn digwydd o dan ddyfnder y lefel trwythiad. Os oes angen cloddio o dan y lefel trwythiad, ni fydd unrhyw waith adeiladu yn digwydd hyd nes bo gwybodaeth i ddangos na fydd unrhyw effeithiau niweidiol wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig ganddo. Bydd yr wybodaeth yn cynnwys, ond ni fydd yn gyfyngedig i, fanylion am ymchwiliadau ymwthiol, monitro a chymeriadaeth cyfundrefn hydroddaeareg yr ardal.

b) Defnyddir mesurau i atal halogi dŵr daear yn ystod gwaith cloddio a all gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddarparu geobilen neu bilen anhydraidd arall debyg.

c) Bydd unrhyw ddŵr sydd naill ai'n casglu tu mewn, neu'n deillio o waith cloddio, yn cael ei bwmpio allan ac yn cael draenio ar y tir o amgylch ar raddfa sy'n caniatáu iddo ymdreiddio ac yn atal erydiad.

d) Bydd y gwaith cloddio ar gyfer gwaelod y tyrbinau cael ei archwilio am bresenoldeb nodweddion yn y craigwely a allai arwain at ymdreiddiad sylweddol o ddŵr.

e) Os oes unrhyw nodweddion daearegol a allai ddarparu ymdreiddiad cyflym o ddŵr, yna bydd gwaith adeiladu yn dod i ben a bydd mesurau i atal ymdreiddiad concrit neu ddeunyddiau adeiladu eraill i nodweddion o'r fath yn cael eu cytuno yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'u gweithredu fel y cymeradwywyd.

f) Bydd nodweddion daearegol yn cael eu diffinio fel ardaloedd o uniadau agored neu bylchol, holltiadau neu ddiffygion.

20. Bydd yr holl newidiadau tanwydd/ olew ar gyfer cerbydau yn cael eu gwneud oddi ar y safle.
21. Ni fydd unrhyw hylifau halogi neu ddeunyddiau toddadwy'n cael dod i'r safle hyd nes y cyflwynir manylion y mesurau lliniaru bwriedig, yn cynnwys unrhyw ollyngiadau, yn ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo ganddo.
22. Lle profir bo'r gwaith adeiladu neu weithrediad y tyrbinau gwynt yn y dyfodol, a ganiateir drwy hyn, yn cael effaith niweidiol ar ansawdd dŵr a/ neu drefn lifo unrhyw gyflenwad dŵr preifat, bydd strategaeth lliniaru i gywiro'r effeithiau hydrolegol niweidiol yn cael ei chyflwyno'n ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i chymeradwyo ganddo, a bydd y strategaeth a gymeradwywyd yn cael ei gweithredu o fewn 1 mis. Pan nad yw mesurau lliniaru yn gallu goresgyn yr effeithiau hydrolegol niweidiol, bydd angen i'r ymgeisydd dalu'r costau o ddarparu cyflenwad dŵr amgen i unrhyw eiddo yr effeithir arno.

A

B) Cwblhau Cytundeb Ymrwymiad Unochrog/ Adran 106 yn foddhaol mewn perthynas â'r Taliad Budd Cymunedol bwriedig i Gyngor Cymuned Llandrillo.

**EITEM 7**

**Rhif Cais:** ENF/2013/00006

**Lleoliad:** **Y Foelas, Lôn Peakes Dinbych**

**Disgrifiad:** Datblygiad heb Awdurdod - gosod ffenestri a drws uPVC ar annedd mewn Ardal Gadwraeth sy'n dod o dan Gyfarwyddyd Erthygl 4.

Eglurodd Paul Mead bod yr eiddo hwn o fewn Ardal Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) o Ddinbych ac felly bod angen caniatâd am ffenestri a drws newydd.

Holodd y Cynghorydd Alice Jones pam fod gan hyn gyfnod cydymffurfio o 12 mis pan fo sefyllfa debyg yn Stryd Fawr Y Rhyl wedi cael cyfnod cydymffurfio hirach.

Cytunodd y Cynghorydd M. Ll. Davies a Stuart Davies ac er mwyn cysondeb, gofynnwyd am i hwn hefyd gael cyfnod cydymffurfio o 2 flynedd.

Eglurodd y Cynghorydd C. Hughes y lleoliad a'r cefndir i'r mater hwn ac ymbiliodd am gydymdeimlad i'w preswylydd.

Holodd yr Aelodau a oedd cwmnïau ffenestri wedi cael gwybod am yr angen am ganiatâd ac a ellid cyflwyno Rhybuddion Gorfodaeth arnynt.

Mewn ymateb i hyn, dwedodd y swyddogion y bu trafodaethau gyda'r preswylydd am 3 blynedd ac nid oedd y camau hyn yn cael eu cymryd yn ysgafn.

Ymhelaethwyd i ddweud nad yw'n bosibl targedu cwmnïau ffenestri, a dim ond i'r rheiny sydd â chysylltiad â'r tir y gellir cyflwyno Rhybuddion Gorfodaeth. Fodd bynnag, bydd swyddogion yn parhau i drafod ynglŷn â'r achos penodol hwn.

**PLEIDLAIS:**

Ar gael ei roi i'r Bleidlais:

13 Pleidlais i gymryd Camau Gorfodaeth o fewn cyfnod cydymffurfio o 12 mis.
8 Pleidlais i beidio cymryd camau gorfodaeth.
2 yn gwrthod pleidleisio.

Felly, PENDERFYNWYD awdurdodi

Cyflwyno Rhybudd Gorfodaeth i sicrhau cael gwared ar y ffenestri a'r drws uPVC heb awdurdod a bod ffenestri pren, traddodiadol, math sash a drws panel tebyg i'r rhai gwreiddiol yn cael eu gosod yn eu lle. (Cyfnod cydymffurfio 12 mis)

Cychwyn ar weithgareddau erlyn, neu weithredu'n addas fel arall o dan y Ddeddf Cynllunio, yn erbyn unrhyw berson neu bersonau y cyflwynir y Rhybudd Gorfodaeth iddynt, neu y cymerir achos cyfreithiol yn eu herbyn os na fyddant yn cydymffurfio gyda gofynion y Rhybudd Gorfodaeth.

**EITEM 8**

**DIGONOLRWYDD YMGYNGHORI**

**FFERM WYNT COEDWIG CLOCAENOG**

Adroddiad a gyflwynwyd gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Mae'r adroddiad yn codi am fod RWE npower Renewables (yr Ymgeisydd) wedi nodi ei fod yn cwblhau'r cais sy'n gofyn am ganiatâd cynllunio i Godi 32 o Dyrbinau Gwynt a gwaith cysylltiedig (Prosiect Isadeiledd Cenedlaethol ei Arwyddocâd (NSIP)) ac mae'n debygol o fod yn cyflwyno'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) i'r Arolygiaeth Gynllunio (PINS) ar ddiwedd mis Mawrth.

Roedd yr adroddiad yn cynghori'r pwyllgor bod yr amser ymateb ar y cais Digonolrwydd Ymgynghori gan yr Arolygiaeth Gynllunio unwaith bydd y cais NSIP wedi cael ei gyflwyno yn gyfyngedig iawn – 14 diwrnod – ac felly nid oes digon o amser i'r Swyddogion baratoi adroddiad manwl ar gyfer y Pwyllgor.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod hwn yn fater pwysig, ac yn cytuno gyda'r swyddogion mai ychydig o amser a roddwyd i ymateb.

Pwysleisiwyd nad oedd y cais wedi cael ei gyflwyno eto, ond bod yr adroddiad hefyd yn ystyried bod yr amser i ymateb yn fyr.

Ar gael ei roi i'r bleidlais, pleidleisiodd 18 i gytuno ar gasgliad yr adroddiad.
Doedd dim pleidleisiau yn erbyn

*Felly, penderfynwyd*:

Bod y Pwyllgor yn awdurdodi'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i roi sylwadau am y cais Digonolrwydd Ymgynghori gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ôl i'r cais Prosiect Isadeiledd Cenedlaethol ei Arwyddocâd am godi tyrbinau gwynt yng Nghlocaenog gael ei gyflwyno'n ffurfiol.

**EITEM 9**

**ADRODDIAD YN ÔL AR DDOGFEN CANLLAWIAU CYNLLUNIO DROS DRO DATBLYGU YNNI'R GWYNT AR ÔL YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS**

Cyflwynwyd gan: Angela Loftus, Rheolwr Polisi Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

Bwriad yr adroddiad hwn yw hysbysu'r Aelodau ynglŷn â'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y ddogfen Canllawiau Cynllunio Dros Dro ar Ddatblygu Ynni'r Gwynt, a chydnabod unrhyw newidiadau a gynigir i'r ddogfen o ganlyniad. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y Canllawiau Cynllunio Dros Dro ar Ddatblygu Ynni'r Gwynt rhwng 7 Tachwedd 2012 i 6 Chwefror 2013.

Fel gyda'r gyfres o ddogfennau presennol Canllawiau Cynllunio Atodol, os caiff ei mabwysiadu, bydd dogfen Canllawiau Cynllunio Dros Dro ar Ddatblygu Ynni'r Gwynt yn ystyriaeth berthnasol wrth asesu ceisiadau cynllunio.

Eglurodd Angela Loftus nad oedd y ddogfen hon yn cyflwyno polisi newydd a fyddai'n cael ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol. Dyma fesur polisi dros dro a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 9 Ebrill 2012.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am adroddiad clir a llawn ond teimlwyd bod angen trafodaeth bellach ar y mater pwysig hwn. I'r perwyl hwn:
Cynigodd y Cynghorydd Huw Williams, yn hytrach na'i gyflwyno i'r Cyngor Llawn nesaf, bod Grŵp Tasg a Gorffen yn cael ei sefydlu.
Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Arwel Roberts.

Ar gael ei roi i'r Bleidlais
12 pleidlais i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen
9 pleidlais i fynd â'r adroddiad i'r Cyngor Llawn ar 9 Ebrill 2013

**FELLY PENDERFYNWYD**
**Sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen gyda'r ddogfen derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn maes o law.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 1:20 pm**